78013-COI-NMW-Employees-Wlsh 15/10/03 9:17 am Page OUT1

Os credwch eich bod yn derbyn tâl sy'n is na'r isafswm cyflog, mae gennych hawl i weld eich cofnodion yn ei gylch. Cyhyd â'ch bod yn gwneud eich cais yn ysgrifenedig, mae'n rhaid i'ch cyflogwr ddarparu'r cofnodion o fewn 14 diwrnod yn ôl y gyfraith. Gellir ymestyn y cyfnod hwn os byddwch yn cytuno i hynny.

Os bydd gennych unrhyw broblem neu gwestiwn ynglŷn â'r isafswm cyflog, neu os byddwch am wneud cwyn nad ydych yn cael yr isafswm cyflog, dylech ffonio'r llinell gymorth isafswm cyflog ar **0845 6000 678**. Caiff galwadau eu trin yn gyfrinachol a gallwch barhau'n ddienw os hoffech wneud hynny. Ond os hoffech i swyddogion isafswm cyflog geisio adennill unrhyw dandaliadau ar eich rhan, bydd yn haws iddynt gymryd y camau angenrheidiol os byddant yn gwybod eich enw a'ch manylion. Efallai y bydd yn rhaid i swyddogion eich enwi i'ch cyflogwr yn ddiweddarach yn y broses orfodi (er enghraifft os bydd angen iddynt fynd i dribiwnlys cyflogaeth ar eich rhan i orfodi'r cyflogwr i dalu). Ni wnânt hyn heb gysylltu â chi yn gyntaf. Gallwch hefyd fynd â'ch achos i dribiwnlys cyflogaeth neu lys sifil. Cewch eich diogelu yn gyfreithiol rhag cael eich diswyddo neu eich fictimeiddio gan eich cyflogwr dros eich hawl i gael yr isafswm cyflog a thros unrhyw gamau y gallech eu cymryd i orfodi eich hawliau.

Sut gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os bydd gennych unrhyw gwestiwn am yr isafswm cyflog neu os hoffech wneud cwyn am dandaliad, ffoniwch y llinell gymorth isafswm cyflog ar **0845 6000 678**. Caiff y llinell gymorth ei rhedeg gan Gyllid y Wlad ar ran y DTI.

Codir cyfraddau lleol am alwadau. Er mwyn ein helpu i wella ansawdd ein gwasanaeth, hwyrach y caiff eich galwad ei monitro neu ei recordio.

I gael canllaw manylach, ffoniwch y llinell wybodaeth isafswm cyflog ar **0845 8450 360** a gofynnwch am eich copi am ddim o *A detailed guide to the national minimum wage*.

Fel arall, gallwch ysgrifennu at minimum wage enquiries, Freepost PHQ1, Newcastle upon Tyne NE98 1ZH neu ymwelwch â gwefan isafswm cyflog y DTI yn **http://www.dti.gov.uk/er/nmw**

Mae'r daflen hon ar gael mewn rhai ieithoedd lleiafrifoedd ethnig (Arabeg, Bengali, Gujarati, Hindi, Punjabi, Wrdw, Tsieinëeg, Iaith Groeg, Somali, Tyrceg a Fietnameg). Ffoniwch 0870 1502 500 neu ysgrifennwch at DTI Publications Order Line, Admail 528, London SW1W 8YT.

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn print bras, Braille ac ar gasét sain yn ôl y galw. Ffoniwch **0845 602 4027**, neu ysgrifennwch at DTI minimum wage, Freepost SE2693, London SE5 7XU.

I gael copïau o Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 a Rheoliadau Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1999, ffoniwch Llinell gymorth Seneddol y Llyfrfa ar **0845 7203 474**.

Bwriad y wybodaeth a geir yn y daflen hon yw darparu canllaw cyffredinol yn unig. Ni ddylid ei hystyried fel datganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith.

Argraffwyd yn y DU ar bapur wedi'i ailgylchu gydag isafswm sgôr y Llyfrfa o 75.
Cyhoeddwyd gyntaf Tachwedd 2002.
Yr Adran Masnach a Diwydiant http://www.dti.gsi.gov.uk/
© Hawlfraint y Goron. DTI/Pub 6946/1k/10/03/AR. URN 03/1163

dti

ISAFSWM CYFLOG CENEDLAETHOL

Canllaw byr i weithwyr

DIWYGIWYD HYDREF 2003

Os oes gennych unrhyw ymholiad ynglŷn â'r isafswm cyflog neu os hoffech wneud cwyn, ffoniwch y llinell gymorth isafswm cyflog ar

0845 6000 678

I gael canllaw manylach, ffoniwch y llinell wybodaeth isafswm cyflog ar

0845 8450 360

a gofynnwch am gopi am ddim o
A detailed guide to the national minimum wage.

78013-COI-NMW-Employees-Wlsh 15/10/03 9:17 am Page INN2

dti

Y DTI sy'n ysgogi ein huchelgais o 'ffyniant i bawb' trwy weithio i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer llwyddiant busnes yn y DU. Rydym yn helpu pobl a chwmnïau i ddod yn fwy cynhyrchiol trwy hyrwyddo menter, dyfeisgarwch a chreadigrwydd.

Hyrwyddwn fusnes y DU gartref a thramor. Buddsoddwn yn sylweddol mewn gwyddoniaeth a thechnoleg o'r radd flaenaf. Diogelwn hawliau'r rhai sy'n gweithio a'r defnyddwyr. A safwn dros farchnadoedd teg ac agored yn y DU, Ewrop a'r byd.

Beth yw'r isafswm cyflog cenedlaethol?

Mae'r isafswm cyflog yn hawl gyfreithiol sy'n berthnasol i bron bob gweithiwr yn y DU. Daeth y gyfraith i rym ar 1 Ebrill 1999. Ar **1 Hydref 2003** cynyddwyd prif gyfradd yr isafswm cyflog i £4.50 yr awr, o £4.20 yr awr. Mae'r brif gyfradd yn berthnasol o ben-blwydd gweithiwr yn 22 oed.

Ar **1 Hydref 2003** cynyddodd cyfradd ieuenctid yr isafswm cyflog i weithwyr 18 i 21 oed (yn cynnwys yr oedrannau hyn) i £3.80 yr awr, o £3.60 yr awr.

Os byddwch yn dechrau swydd newydd gyda chyflogwr newydd ac yn 22 oed neu'n hŷn ac yn derbyn hyfforddiant achrededig gan y cyflogwr hwnnw, o **1 Hydref 2003**, bydd yn rhaid iddo dalu o leiaf £3.80 yr awr i chi (£3.60 yn flaenorol) am chwe mis cyntaf eich cyflogaeth. Yn yr achos hwn, bydd yn rhaid i chi ddod i gytundeb gyda'ch cyflogwr fydd yn ei rwymo i ddarparu hyfforddiant am 26 diwrnod o leiaf yn ystod y cyfnod chwe mis hwnnw. Mae *A detailed guide to the national minimum wage* yn esbonio pa fathau o hyfforddiant a achredir.

A yw'n effeithio arna i?

Bydd gan y rhan fwyaf o weithwyr yn y DU, gan gynnwys gweithwyr cartref, gweithwyr asiantaeth, gweithwyr ar gomisiwn, gweithwyr rhan amser, gweithwyr achlysurol a gweithwyr ar dasgau, hawl i gael yr isafswm cyflog.

Beth sy'n cyfrif fel tâl?

Os hoffech wneud yn siŵr bod y tâl rydych yn ei gael yn unol â'r isafswm cyflog, ni fydd yr holl arian y byddwch yn ei gael bob wythnos neu fis yn cyfrif. Er bod taliadau cymhelliant, bonws a thâl yn seiliedig ar berfformiad **yn** cyfrif fel tâl at ddibenion yr isafswm cyflog, **nid** yw lwfansau fel lwfansau rhanbarthol na chânt eu hymgorffori yn eich tâl sylfaenol yn cyfrif. Nid yw unrhyw arian ychwanegol uwchlaw cyfraddau sylfaenol a gewch am waith goramser neu waith shifft yn cyfrif ychwaith.

Nid yw buddiannau mewn da fel gwisg, prydau bwyd, neu yswiriant iechyd preifat yn cyfrif. Yr unig fudd mewn da sy'n cyfrif yw llety. Mae rheolau arbennig ar gyfer cyfrifo gwerth llety sy'n cyfrif tuag at yr isafswm cyflog.

I gael rhestr gyflawn o'r hyn sy'n cyfrif a'r hyn nad yw'n cyfrif fel tâl, gweler *A detailed guide to the national minimum wage.*

Beth sy'n cyfrif fel oriau?

Caiff nifer yr oriau y mae'n rhaid i'ch cyflogwr dalu o leiaf yr isafswm cyflog i chi ei gyfrifo'n wahanol yn ôl y math o waith a wnewch. Mae pedwar math penodol o waith:

- Os cewch eich talu i weithio am nifer benodedig o oriau neu am gyfnod penodedig o amser, rydych yn gwneud **gwaith amser**;
- Os bydd gennych gontract i weithio am nifer benodedig o oriau sylfaenol bob blwyddyn yn gyfnewid am gyflog blynyddol a delir mewn rhandaliadau cyfartal (er enghraifft bob wythnos neu bob mis), rydych yn gwneud **gwaith oriau cyflog**;
- Os cewch eich talu yn unol â'r nifer o bethau rydych yn eu cynhyrchu neu'r nifer o ddeliau neu werthiannau a wnewch, rydych yn gwneud **gwaith allbwn**;
- Os bydd rhaid i chi wneud nifer penodol o dasgau, ond nad oes gennych unrhyw oriau penodol, rydych yn gwneud **gwaith heb ei fesur**. Mae opsiwn i chi gael cytundeb ysgrifenedig gyda'ch cyflogwr yn nodi nifer yr oriau y dylech eu gweithio bob dydd ar gyfartaledd.

Mae *A detailed guide to the national minimum wage* yn darparu mwy o wybodaeth am yr holl fathau hyn o waith ac am gytundebau cyflogwyr.

Sut gallaf sicrhau fy mod yn cael yr isafswm cyflog cenedlaethol?

Cyhyd â bod gennych hawl i'r isafswm cyflog, ni all eich cyflogwr eich gorfodi i dderbyn cyfradd tâl is. Hyd yn oed os byddwch yn llofnodi contract yn cytuno i dderbyn cyfradd tâl is, ni fydd effaith gyfreithiol i hyn.